Apeliadau

Beth gallaf ei wneud os byddaf yn anghytuno â chanlyniad fy Apêl?

Os byddwch yn dal i fod yn anfodlon ar ganlyniad eich Apêl, cewch gyflwyno cais am Adolygiad Terfynol drwy gwblhau a chyflwyno'r Ffurflen Gais am Adolygiad Terfynol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Academaidd **o fewn 14 diwrnod gwaith** ar ôl dyddiad yr e-bost a oedd yn cynnwys canlyniad eich Apêl. Gellir dod o hyd i'r Ffurflen hon a manylion am y rhesymau dros Adolygiadau Terfynol ar-lein ar:

https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/conduct-and-complaints/final-review-procedure/

Eleni (o ganlyniad i'r cyfnod byr rhwng cyhoeddi'r canlyniadau a dechrau'r cyfnod asesu atodol) ni fydd ceisiadau am adolygiadau terfynol yn cael eu hystyried na'u prosesu mewn pryd ar gyfer y cyfnod asesu atodol, nac yn ystod y cyfnod hwnnw. Felly, os byddwch yn aflwyddiannus wrth apelio/nad ydych yn derbyn y canlyniad roeddech yn ei ddymuno wrth apelio, ac rydych yn cyflwyno cais am adolygiad terfynol sy'n gofyn am ymgais atodol, ni fydd yn cael ei ystyried na'i brosesu mewn pryd ar gyfer y cyfnod asesu atodol, nac yn ystod y cyfnod hwnnw.

Unwaith y caiff proses yr Adolygiad Terfynol ei gwblhau, bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Academaidd yn anfon llythyr "Cwblhau'r Broses" atoch a fydd yn cadarnhau penderfyniad terfynol y Brifysgol a bod y gweithdrefnau wedi'u cwblhau. Wedyn gallech ystyried gofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (OIA) adolygu'n allanol y ffordd mae eich achos wedi cael ei drin. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am y Swyddfa o'r Gwasanaethau Academaidd neu ar wefan y Swyddfa ar: http://www.oiahe.org.uk/.

Gwybodaeth adnabod ateb unigryw: #1677
Awdur: : Joanna Parketny
Diweddariad diwethaf: 2020-06-15 16:27

(c) 2021 Swansea University Web Team <myunihub@swansea.ac.uk> | 15-04-2021 13:50
URL: /faq/index.php?action=artikel&cat=58&id=31&artlang=cy